OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 No. 2914

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

RHAN 4

Cymwysterau a deiliadaeth swyddi

Cymwysterau ac anghymwysiadau

24. Mae Atodlen 5 yn nodi'r amgylchiadau pan fo person yn gymwys neu'n anghymwys i ddal swydd neu i barhau mewn swydd fel llywodraethwr.

Cyfnod swydd

25.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (7) bydd llywodraethwr yn dal swydd am gyfnod penodol o bedair blynedd o ddyddiad ei ethol neu ei benodi.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw lywodraethwr sy'n bennaeth yr ysgol, nac i unrhyw lywodraethwr sefydledig *ex officio,* a gaiff ddal swydd cyhyd ag y mae'n dal y swydd y mae ei swydd fel llywodraethwr yn deillio ohoni.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw lywodraethwr sefydledig y pennir cyfnod ei swydd gan y person a'i penododd, hyd at uchafswm o 4 blynedd.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw lywodraethwr ychwanegol, llywodraethwr sefydledig ychwanegol nac aelod gweithredol interim a benodir o dan adrannau 16(**1**), 16A(**2**), 18(**3**) neu 18A(**4**) o Ddeddf 1998 y pennir cyfnod ei swydd gan y person a'i penododd, hyd at uchafswm o 4 blynedd.

(5) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw riant-lywodraethwr ysgol feithrin a gynhelir a fydd yn dal swydd am gyfnod penodol o ddwy flynedd o ddyddiad ei ethol neu ei benodi.

(6) Caiff dirprwy lywodraethwr ddal swydd hyd y cynharaf o'r canlynol—

(a) diwedd pedair blynedd o'r dyddiad y daw ei benodiad i rym;

(b) y dyddiad y bydd y llywodraethwr gwreiddiol (ond yw wedi ei ddiswyddo o dan reoliad 27 (2)) yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu yn nodi y gall weithredu fel llywodraethwr sefydledig a'i fod yn fodlon gwneud hynny; neu

(c) y dyddiad y bydd person ar wahân i'r llywodraethwr gwreiddiol yn cymryd y swydd y mae swydd y llywodraethwr sefydledig *ex officio* yn bodoli o'i herwydd.

(7) Nid yw'r rheoliad hwn yn rhwystro llywodraethwr rhag—

(a) cael ei ethol neu ei benodi am gyfnod pellach, ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rheoliadau hyn;

(b) ymddiswyddo yn unol â rheoliad 26(1);

(**1**) Diwygiwyd gan adran 56 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 5 iddi.
(**2**) Rhoddwyd i mewn yn rhagolygol gan adran 57 o Ddeddf 2002.
(**3**) Diwygiwyd gan adran 56 o Ddeddf 2002.
(**4**) Rhoddwyd i mewn yn rhagolygol gan adran 58 o Ddeddf 2002.

(c) cael ei ddiswyddo o dan reoliadau 27 i 29; neu

(ch) cael ei anghymhwyso, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, rhag dal neu barhau i ddal swydd.

(8) Yn y rheoliad hwn ystyr "y llywodraethwr gwreiddiol" ("*the original governor*") yw'r llywodraethwr sefydledig *ex officio* y penodir y dirprwy lywodraethwr i weithredu yn ei le.

Ymddiswyddo

26.—(1) Caiff llywodraethwr ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu.

(2) Caiff y pennaeth dynnu ei ymddiswyddiad yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu.

(3) Caiff llywodraethwr sefydledig *ex officio* ymddiswyddo fel llywodraethwr naill ai'n barhaol neu dros dro, ond ni fydd ei ymddiswyddiad yn niweidio swydd llywodraethwr *ex officio* ei olynydd yn y swydd y mae ei swydd fel llywodraethwr *ex officio* yn deillio ohoni.

Diswyddo llywodraethwyr AALl, llywodraethwyr sefydledig, llywodraethwyr cynrychioliadol llywodraethwyr cymunedol ychwanegol a noddwr-lywodraethwyr

27.—(1) Caiff y person a'i penododd ddiswyddo unrhyw lywodraethwr AALl, llywodraethwr sefydledig neu lywodraethwr cynrychioliadol, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o hynny i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr a ddiswyddir.

(2) Caiff y person a enwir yn yr offeryn llywodraethu fel y person sydd â'r hawl i'w ddiswyddo, ddiswyddo unrhyw lywodraethwr sefydledig *ex officio*, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o hynny i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr a ddiswyddir.

(3) Caiff y person a'i henwebodd ddiswyddo unrhyw lywodraethwr cymunedol ychwanegol neu noddwr-lywodraethwr, a rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu ac i'r llywodraethwr a ddiswyddir.

Diswyddo llywodraethwyr cymunedol

28. Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo unrhyw lywodraethwr cymunedol (ac eithrio llywodraethwr cymunedol ychwanegol) yn unol â'r weithdrefn a nodir yn rheoliad 30.

Diswyddo rhiant-lywodraethwyr penodedig a llywodraethwyr partneriaeth

29. Caiff y corff llywodraethu ddiswyddo unrhyw riant-lywodraethwr a benodwyd gan y corff llywodraethu o dan baragraffau 10 i 12 o Atodlen 1 neu unrhyw lywodraethwr partneriaeth yn unol â'r weithdrefn a nodir yn rheoliad 30.

Y weithdrefn ar gyfer diswyddo llywodraethwyr gan y corff llywodraethu

30.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â diswyddo llywodraethwr yn unol â rheoliad 28 neu 29.

(2) Ni fydd penderfyniad a gaiff ei basio mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu i ddiswyddo llywodraethwr yn effeithiol oni bai—

(a) fod y llywodraethwr neu'r llywodraethwyr sy'n cynnig ei ddiswyddo, cyn i'r corff llywodraethu benderfynu diswyddo'r llywodraethwr, yn nodi yn y cyfarfod hwnnw eu rhesymau dros wneud hynny ac y rhoddir cyfle i'r llywodraethwr y cynigir ei ddiswyddo wneud datganiad i ymateb; ac

(b) y pennir mater diswyddo'r llywodraethwr fel eitem benodol o fusnes ar agenda'r cyfarfod.

(3) Ar ôl pasio penderfyniad i ddiswyddo llywodraethwr rhaid i'r corff llywodraethu roi gwybod yn ysgrifenedig i'r person a ddiswyddir y rhesymau dros y diswyddo.